

PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

10 Ebrill 2019

Present: Mr AE Sangster (Cadeirydd)
Cynghorydd K Doolin, Mrs J James, Cynghorydd M James,
Cynghorydd M Williams, Cynghorydd S Yelland; Mr P Howe
(Cyngor Sir Penfro), Ms L Livock (Cymdeithas Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir Benfro) and Mr G Lloyd-Jones (Cyfoeth Naturiol
Cymru).

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.10pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms S Green a Mrs J Mansfield.

2. Datgan Buddiannau

Datganodd Mr P Howe a'r Cynghorydd S Yelland fuddiant personol yn y cais rhif SDF/2019/2 Teuluoedd Egniol, ond roedd y ddau wedi aros yn y cyfarfod ac wedi cymryd rhan lawn yn y trafodaethau ar y cais.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2018.

5. Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Iwan Thomas, Prif Weithredwr PLANED, i'r cyfarfod.

Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Cynllunio fel y Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF) wedi atgoffa'r Pwyllgor bod y gwaith o weinyddu'r gronfa o ddydd i ddydd yn cael ei wneud bellach gan PLANED ar gyfnod prawf o 15 mis. Roedd PLANED wedi bod yn hysbysebu ac yn coladu'r ceisiadau ac wedi delio ag 20 a mwy o ymholiadau dilys gan ystod eang o bartïon â diddordeb. Rhagwelwyd y byddai rhai o'r ymholiadau hyn yn symud ymlaen i geisiadau llawn i'w hystyried gan y Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Aeth y swyddog rhagddo i esbonio bod yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu'r 2 gais i'w hystyried y diwrnod hwnnw. Hefyd roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y camau ymlaen a gymerwyd ar y prosiectau a gymeradwywyd yn y cyfarfod blaenorol oedd yn derbyn

sylw gan swyddogion yr Awdurdod er mwyn sicrhau rhywfaint o barhad i reolwyr y prosiectau.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid wedyn bod cyllideb 2018/19 wedi'i dyrannu, a bod rhywfaint o lithriant yn y gyllideb gan fod ymgeiswyr wedi methu â chadw at eu hamserlen wreiddiol, a bod y prosiect astudiaeth dichonoldeb Carotenoid wedi'i dynnu'n ôl oherwydd diffyg cyllid cyfatebol. Hefyd arbedwyd costau gan fod un o'r ymgeiswyr wedi gallu dod o hyd i beiriant rhatach nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Roedd yr arbediad hwn yn rhyw £17,000 ac wedi'i ddychwelyd i'r gronfa wrth gefn. Y gyllideb oedd ar gael ar gyfer 2019/20 i'w dyrannu oedd £100,000, er bod arian eisoes wedi'i ymrwymo mewn perthynas â'r Prosiect Gwarcheidwaid Treftadaeth a'r Prosiect Pŵer Sir Benfro a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Serch hynny, pe bai'r Pwyllgor yn dymuno, dywedwyd bod digon o gyllid ar gael i gymeradwyo'r ddau brosiect oedd ger eu bron y diwrnod hwnnw.

NODWYD.

6. Ceisiadau am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Ystyriodd y Pwyllgor 2 gais newydd am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Ystyriwyd y ceisiadau yn fanwl yn erbyn meini prawf asesu'r gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan ymgeiswyr y ddau brosiect. Atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o'r ceisiadau oedd wedi'u cynnwys ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif ac na ddylid felly eu rhannu ymhellach na'u dosbarthu.

Cyfeirnod	Enw'r Prosiect	Cyflwyniad gan	Sefydliad
SDF/2019/1	Canolfan Hynod Wyllt	John Mansfield	Pembrokeshire Seaweeds Cyf
SDF/2019/2	Teuluoedd Egniol	Laura Phillips Amy Delaney Natalie Linton	Sir Benfro yn Dysgu

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fydd yn gwneud y penderfyniadau yn ôl cylch gorchwyl y Pwyllgor, gan gymryd barn yr Aelodau Ymgynghorol hynny oedd yn bresennol i ystyriaeth.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD:**

- (a) gohirio'r cais rhif SDF/2019/1 gan y Ganolfan Hynod Wyllt tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor i ganiatáu i'r ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn â chynllunio busnes a chynllunio ariannol. Hefyd gofynnir i'r ymgeiswyr wneud cyflwyniad pellach i'r Pwyllgor;

- (b) bod swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano yn cael ei roi i SDF/2019/2 Teuluoedd Egniol, cyn belled ag y cydymffurfir ag amodau arferol y grant.